Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Meidrim
# Meidrim
# Caerfyrddin
# SA33 5QN

**Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2010**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan Awdurdod Lleol (ALl) Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Meidrim.Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos.

Derbynnir plant i'r dosbarth derbyn ar ddechrau'r tymor cyn iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 39 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae’r niferoedd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ôl yr ysgol, nid yw’r dalgylch at ei gilydd yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 13% o’r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim.

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu lawn.Dynodir wyth (21%) ohonynt â ganddynt anghenion addysgol arbennig (AAA), yn cynnwys dau ddisgybl ar ddatganiad o AAA.Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen a blwyddyn (B) 2.Yng nghyfnod allweddol 2 (CA2), addysgir disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg.Daw tua 82% o’r disgyblion o gartrefi ble mae’r Saesneg yn brif iaith.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 1989.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Meidrim yw £3738 sy’n cymharu gydag uchafswm o £17415 ac isafswm o £3014 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin.Yr ysgol sydd â’r gyllideb fesul disgybl 48fed uchaf o'r 114 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd:

- mae disgyblion, gan gynnwys y rhai llai galluog, yn gwneud cynnydd da;
- mae'r addysgu yn dda ar y cyfan;
- darperir profiadau dysgu perthnasol a diddorol i'r disgyblion;
- ceir staff ymroddgar sy'n adnabod eu disgyblion yn dda;
- mae'r ysgol yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned agos, deuluol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella da oherwydd:

- mae data'r ysgol dros amser yn dangos bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu ac yn cyflawni eu targedau;
- arweinyddiaeth gadarn y pennaeth gyda dealltwriaeth glir o anghenion yr ysgol;
- gwaith tîm da a defnydd effeithiol o arbenigedd athrawon;
- mae staff a chorff llywodraethol ymroddgar iawn sy'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth i ddatblygu'r ysgol ymhellach;
- mae'rathrawon yn cymryd camau priodol i gryfhau agweddau ar gynllunio ar gyfer gwella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 gryfhau medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion ymhellach;

A2 gryfhau'r cynllunio i ddatblygu medrau sylfaenol ac allweddol y disgyblion yn fwy cyson ar draws yr ysgol;

A3 mireinio'r cynllun datblygu ysgol i ffocysu'n fwy ar ddulliau penodol i wella safonau cyflawniad;

A4 ymestyn y defnydd o weithdrefnau asesu, gan gynnwys rôl y disgyblion eu hunain yn y broses.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd a wneir yn cael ei fonitro gan yr ALl.

## Prif ganfyddiadau

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?** | **Da** |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae cyflawniad disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn eang iawn. Gwnânt gynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) dros y tair blynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol wedi bod yn is na phump mewn llawer o'r blynyddoedd ac o ganlyniad rhaid ystyried cymariaethau cenedlaethol a sirol yn ofalus. Mae nifer y disgyblion ag AAA o fewn y carfannau hefyd yn effeithio'r canlyniadau. Nid oes gwahaniaeth cyson rhwng perfformiad y bechgyn a pherfformiad y merched er bod rhai amrywiaethau.

Yn asesiadau'r CC dros dair blynedd, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 (CA1) mewn gwyddoniaeth yn uwch na chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae canlyniadau mathemateg yn dangos gwelliant gyda'r canlyniadau diweddaraf yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau cenedlaethol, sirol a'r teulu. Mae canlyniadau yn y Gymraeg yn anwastad ac yn is na chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu. Er hyn, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 3, yn y Gymraeg yn cymharu'n ffafriol gyda chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu yn y mwyafrif o flynyddoedd. Ym mathemateg a gwyddoniaeth hefyd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel3 yn cymharu'n ffafriol iawn gyda chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill ar draws Cymru, yn seiliedig ar y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf o ysgolion.

Yn asesiadau'r CC dros dair blynedd, mae canlyniadau disgyblion ar ddiwedd CA2 yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol gyda chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu yn y mwyafrif o'r blynyddoedd. Mae canlyniadau Cymraeg yn is na chanlyniadau cenedlaethol, sirol a'r teulu ac yn effeithio ar gyfartaleddau cyffredinol yr ysgol. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 5, yn fwy anwastad. Yn Saesneg, mae'r canrannau yn uwch na chanrannau cenedlaethol, sirol a'r teulu yn y mwyafrif o flynyddoedd. Maent yn fwy anwastad yn y pynciau eraill ond yn dangos cynnydd mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill ar draws Cymru, yn seiliedig ar y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn amrywio rhwng y 50% isaf a'r 25% uchaf o ysgolion.

Mae disgyblion sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim hefyd yn gwneud cynnydd cyson yn unol â'u gallu a lefel eu datblygiad. Mae data'r ysgol yn dangos datblygiad da'r disgyblion mwy abl.

Gwna mwyafrif y disgyblion ddefnydd cynhyrchiol o'u medrau allweddol mewn amrediad o dasgau ar draws y cwricwlwm. Gwelir enghreifftiau o waith da mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn y defnydd o fedrau rhifedd, ac yn y defnydd o fedrau meddwl a datrys problemau mewn pynciau megis gwyddoniaeth. O fewn ystod gallu'r disgyblion, mae safonau darllen yn dda at ei gilydd. Mae safonau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn fwy anwastad ac yn adlewyrchu gafael ansicr o gystrawen ac o batrymau sillafu cywir, yn arbennig yn y Gymraeg yn CA2.

Mae datblygiad medrau Cymraeg y disgyblion yn anwastad. At ei gilydd, mae'r disgyblion gyda'r Gymraeg yn fam iaith a'r dysgwyr mwy galluog yn gwneud cynnydd da. Mae cynnydd y gweddill yn ddigonol.Mae mwyafrif y disgyblion sy'n ymuno â dosbarth CA2 heb unrhyw Gymraeg yn gwneud cynnydd cyson.

**Lles: Da**

Mae lles disgyblion yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o bwysigrwydd cadw'n iach a diogel. Deallant werth gwneud ymarfer corff a bwyta'n iach.Mae bron pob disgybl yn dangos agweddau da at ddysgu ac yn ymwneud â'u tasgau yn frwdfrydig. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill mewn grwpiau ac fel parau. Mewn trafodaethau, dywedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.Maent yn ennill medrau cymdeithasol cadarn ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Mae lefelau presenoldeb (94%)a phrydlondeb y disgyblion yn dda.Maent yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais i'r staff ac ymwelwyr.

Mae'r defnydd o holiaduron a thrafodaethau i grybwyll llais y disgyblion ar agweddau o fywyd a darpariaeth yr ysgol yn ddatblygiad da. Mae aelodaeth o'r Cyngor Ysgol a'r Cyngor Eco hefyd yn datblygu medrau trafod a gwneud penderfyniadau'r disgyblion yn effeithiol.Ceir enghreifftiau da o bartneriaethau'r ysgol gyda'r gymuned, ac mae'r disgyblion yn elwa llawer arnynt.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r cynlluniau cwricwlaidd sydd wedi ei diweddaru yn darparu ystod ddigonol o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb disgyblion, ac yn ymdrin yn addas â gofynion y CC, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r ysgol yn y broses o ddiweddaru'r cynllunio yn y pynciau sy'n weddill yn ôl gofynion Cwricwlwm 2008.Mae'r athrawon yn cyd-weithio'n dda i gynllunio rhaglenni hyblyg ac yn defnyddio eu harbenigedd pynciol yn effeithiol.

Ceir cynlluniau i ddatblygu'r Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes strwythur digonol ynddynt i ateb anghenion ieithyddol eang y disgyblion.

Trwy brofiadau, megis dathlu canmlwyddiant yr ysgol ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb, darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal a hanes a diwylliant Cymru. Hyrwyddir dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol drwy bynciau'r cwricwlwm,prosiectau penodol, a'r cysylltiadau gydag ysgol yng ngwlad Cenia. Mae'r ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy o ddydd i ddydd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan ac mae'r athrawon a'r staff cymorth profiadol yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol da a llwyddant i wneud y gwersi'n ddiddorol ar gyfer y disgyblion. Defnyddiant ystod eang o ddulliau addysgu ac o adnoddau pwrpasol i gynorthwyo'r dysgu. Yn yr arfer orau, cynigir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion i weithio yn fwy annibynnol o fewn eu grwpiau neu fel parau.Mae yna berthynas waith da rhwng y disgyblion a'r holl staff.

Caiff cynnydd disgyblion ei asesu a'i dracio'n rheolaidda gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth i adnabod a chefnogi anghenion dysgu unigolion.Caiff gwaith ydisgyblion ei farcio a chynigir adborth da iddynt ar lafar.Yn yr arfer orau, mae sylwadau ysgrifenedig yr athrawon ar waith y disgyblion yn darparu arweiniad da i'w galluogi i wella safon eu gwaith. Defnyddir canmoliaeth yn dda i annog y disgyblion llai hyderus ar lawr y dosbarth.

Mae'r ffocws ar ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn nodwedd sydd yn datblygu. Mae'r disgyblion yn gosod eu targedau personol ar y cyd â'r athrawon a gall y mwyafrif drafod eu cynnydd gan nodi'n syml yrhyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n rheolaidd am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant. Mae'r adroddiadau blynyddol yn cynnwys sylwadau cwricwlaidd addas ond braidd yn brin yw sylwadau penodol mewn rhai pynciau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu lles, gofal a diogelwchdisgyblion yn dda a cheir cydweithio effeithiol gyda nifer o asiantaethau sydd yn cynnig cefnogaeth adeiladol i ddisgyblion ac i'r staff. Trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), prosiect ysgolion iach, cyfraniad ymwelwyr ac amser cylch,llwyddir i hybu iechyd a lles disgyblion yn effeithiol.Mae'r gweithgareddauhefyd yn ganolog i hybu eu dealltwriaeth o gyfle cyfartal, tegwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth.Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu.

Mae gweithdrefnau da ar waith ar gyfer adnabod, cefnogi a monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Cânt eu cydlynu'n effeithiol gan y pennaeth. Darperir cynlluniau addysg unigol ar gyfer pob un o'r disgyblion yma a chânt eu hadolygu a'u diweddaru'n briodol trwy ymgynghori â rhieni a gofalwyr. Caiff y rhan fwyaf o'r cymorth ychwanegol ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn eu dosbarthiadau,ac fe gânt eu tynnu allan o wersi yn achlysurol i gael cymorth penodol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig tuag at gyflawni'r targedau a osodwyd ar eu cyfer. At ei gilydd, caiff y disgyblion mwy abl eu herio'n addas yn yr ystafell ddosbarth trwy dasgau a chymorth perthnasol.

Ceir profiadau dysgu effeithiol i hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned glos, gynnes a chynhwysol. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion amrywiol y disgyblion ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl i fanteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol. Ni chaiff disgyblion ag anableddau eu trin yn llai ffafriol.

Er bod yr adeilad yn darparu digon o le i addysgu'r plant, ceir diffygion megis dim neuadd a mannau storio digonol. Mae'r gwelliannau i'r ardaloedd allanol, megis yr ardd a lle chwarae dan do i blant y Cyfnod Sylfaen, yn cynnig adnoddau dysgu da. Maent hefyd yn enghraifft o werth y cydweithio da rhwng y disgyblion, yr ysgol, rhieni a'r gymdeithas leol.

Drwyddi draw mae yna ddigon o adnoddau, ac mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn ddiddorol ac yn arddangos gwaith y disgyblion. Mae'r defnydd effeithiol o arbenigedd staff ac o adnoddau addas yn cyfrannu'n dda at greu amgylchedd dysgu cadarnhaol ar gyfer disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o anghenion yr ysgol ac mae'r staff yn gweithio'n dda fel tîm i ddatblygu'r ddarpariaeth ac i wella safonau. Mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu. Caiff hyn effaith dda ar ethos yr ysgol. Mae rôl yr arweinyddion pwnc yn parhau i ddatblygu gyda'r bwriad i roi mwy o ystyriaeth i arfarnu safonau disgyblion wrth arsylwi gwersi.

Mae'r ysgol yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda ac mae ganddi gynlluniau i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer ABCh ac agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwella sgiliau cyfathrebu disgyblion yn y Gymraeg yn parhau yn faes priodol i dderbyn sylw.

Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol. Ymwelant yn gyson gan fonitro'r ddarpariaeth yn dda. Maent yn mynychu hyfforddiant addas ac yn dechrau herio'r ysgol fel ffrindiau beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer gwella yn ddigonol. Mae arweinwyr pwnc yn gwerthuso cynnydd yn y pynciau craidd yn flynyddol ond mae dulliau monitro cynnydd yn y pynciau sylfaen yn fwy anffurfiol eu natur. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys materion addas i dderbyn sylw. Lle mae ffocws clir yn y cynllun, fel codi safonau disgyblion mewn meysydd fel darllen, mae cynnydd yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r camau a nodwyd ar gyfer gwella meysydd eraill, megis datblygu medrau llafar a sillafu'r disgyblion yn y Gymraeg, yn ddigon penodol.

Mae'r staff yn cael eu cynnwys mewn ystod dda o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cydweithio fwy gydag ysgolion lleol eraill. Defnyddir arbenigedd athrawon yn effeithiol i ddatblygu agweddau ar y ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol.Maent yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion, tracio cynnydd disgyblion a datblygu rôl y Corff Llywodraethol yn y broses o hunan arfarnu. Mae codi safonau ysgrifennu Cymraeg y disgyblion yn parhau yn faes i'w wella.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn meithrin ystod o bartneriaethau defnyddiol. Mae'r gwelliannau o ran datblygu adnoddau awyr agored ac amgylchedd yr ysgol yn enghraifft o bartneriaeth effeithiol gyda'r rhieni a'r gymuned. Mae'r cydweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion cynradd y cylch yn ymestyn er mwyn rhannu syniadau a datblygu agweddau o'r cwricwlwm.Mae'r partneriaethau a'r cynlluniau trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf

yn eu haddysg. Gweithia'r ysgol yn agos gyda swyddog gwella'r ALl i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad pwysig wrth gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Gwna gymdeithas rhieni a ffrindiau'r ysgol gyfraniad da at ychwanegu at gronfa ariannol i brynu nwyddau dysgu ychwanegol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Caiff staff cymorth parhaol eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafelloedd dosbarth ac mewn gweithgareddau awyr agored. Mae systemau rheoli perfformiad effeithiol mewn bodolaeth.

Mae adnoddau digonol ar gyfer rhan fwyaf o bynciau'r cwricwlwm ac mae gan yr ysgol gynlluniau i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg gorfforol ymhellach.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn dda i sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb.Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran y defnydd a wneir o'r gyllideb a ddyrannwyd iddi.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwyd yr holiadur gan tua hanner o rieni/gofalwyr. Mae pawb yn dweud bod eu plant yn hoffi mynychu'r ysgol a'u bod yn ymgartrefu'n dda. Mae'r mwyafrif yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd ac yn datblygu'n unigolion aeddfed. Mae'r mwyafrif yn credu bod plant yn cael eu trin yn deg a gyda pharch a'u bod yn ymddwyn yn dda. Teimlant fod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Teimla'r mwyafrif bod plant yn cael cymorth ychwanegol digonol mewn perthynas â'u hanghenion. Mae llawer o'r rhieni a atebodd yn nodi eu bodlonrwydd bod gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol, bod prosesau digonol ar gyfer paratoi disgyblion ar gyfer symud ymlaen i'w hysgol nesaf a bod trefniadaupriodol ar gyfer delio â chwynion.

#### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiadur gan y rhan fwyaf o ddisgyblion CA2. Dywed pob un eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau'r ysgol, a'u bod yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Maent hefyd yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda a'u bod yn cael eu hannog i ymgymryd â chyfrifoldebau sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y dosbarth neu'r ysgol nesaf.Mae cytundeb bod yr ysgol yn eu helpu i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae bron pob un yn teimlo bod disgyblion yn ymddwyn yn dda bob amser, yn cynnwys ystod yr egwyl chwarae a'r egwyl ginio. Credant hefyd bod gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith yn yr ysgol.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Miss Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Jeff Harries | Arolygydd Tîm |
| Mr Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Doris Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Susan Harries | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** EPPC-Severn Crossing Cyf Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |